

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/10/2017

Presennol: Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Sharon Evans, Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, , Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Edith Roberts Absennol: Ivora Jones

1. Wrth estyn croeso i bawb, mynegodd y Maer gydymdeimlad yr aelodau wrth y Cynghorydd Eifion Roberts yn ei brofedigaeth ddiweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda .
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/9/17.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. *Cofnod 11* Cadarnhawyd trefniadau Sul y Cofio, yr archeb pabis gwynion a threfniadau rali'r beiciau modur. Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei rodd o dorch i'r Cyngor
 - ii. *Cofnod 15i* Adroddodd Eluned Jones a Sharon Evans ar eu hymweliad gyda chynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru a'r gwelliannau diweddar ar lan y llyn. Derbyniwyd y gosodwyd y gridiau fel amddiffynfa i atal pobl rhag syrthio lawr y dibyn i'r concriid islaw. Cytunodd y cynrychiolydd i fesurau i leihau amlygrwydd yr amddiffynfa. Diolchwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru am eu parodrwydd i gynnal perthynas o gyd-weithio gyda'r Cyngor. Cytunwyd i holi ymhellach am bwrpas y stydiau a osodwyd ar hyd llwybr y morglawdd. Cytunwyd i gydweithio gyda Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i ddewis safleoedd addas i osod tair mainc y Cyngor ar y llwybr newydd.
 - iii. *Cofnod 15ii* Mae'r ceir a oedd ar werth mewn manau cyhoeddus wedi eu symud.
 - iv. *Cofnod 12ii* Cytunodd Cynghorwyr i glirio eiddo'r Cyngor ar lawr uchaf yr Henblas ar 10/10/17.
 - v. *Cofnod 15v* Mae'r gwaith trwsio angenrheidiol yn nhoiledau'r Plase wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd; ni dderbyniwyd ymateb am yr angen i glirio cerrig mân o Heol Ffrydan.

6. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd y Cynghorydd Sir fod y gwaith adeiladu ar gampws Ysgol y Berwyn ar amser. Trafodwyd parcio yn yr Ystâd Ddiwydiannol a chytunwyd i ofyn am linellau melyn yno. Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y bydd arolwg o gyflwr palmentydd tref Y Bala gan Gyngor Gwynedd. Mae swydd Warden Cŵn yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Mae Dilwyn Morgan yn casglu gwybodaeth am yr awyren a ddaeth lawr ar yr Arenig, a derbyniwyd llythyr yn cydnabod ymdrechion Dilwyn Morgan.
7. **Un Llais Cymru:** Rhoddodd y Clerc amlinelliad o'r Pwyllgor Ardal ddiwethaf.
8. **Lloches bws:** Cytunodd y Clerc i bwysu ar NMWTRA i ddynodi safle parcio anabl wrth yr Eglwys Gatholig. Ar ôl trafod gyda busnesau a thrigolion cyfagos, y bwriad yw cael cyngor gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri ar safle addas i loches bws.
9. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau cynllunio.
10. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a monitrowyd y gwariant hyd yn hyn yn erbyn y Gyllideb.
11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad manwl gan y cynrychiolwyr ac roedd balchder fod Canolfan Henblas yn cynnig llety i amrywiaeth o fusnesau a gweithgareddau. Cafwyd trafodaeth ar doiledau cyhoeddus y dref. Deallwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cais am grant i uwchraddio toiledau'r Grŵn ac fe fydd y rhain yn cau er mwyn i'r gwaith fynd yn ei flaen (os bydd y cais yn llwyddiannus). Roedd cytundeb nad yw eu cyflwr yn dderbyniol ar hyn o bryd. Roedd y Cyngorwyr yn unfrydol yn eu penderfyniad i roi cefnogaeth ariannol i Gyngor Gwynedd er mwyn cadw toiledau'r Plase ar agor er budd trigolion Penllyn ac ymwelwyr.
12. **Y Nadolig:** Rhoddwyd ystyriaeth i'r goleuadau Nadolig sydd wedi cael eu tynnu er mwyn tocio'r coed. Cytunwyd i'r Clerc bwysu am iddynt gael eu hail-osod ac i wneud cais am drwydded ar eu cyfer.
- Trafodwyd trefniadau'r Siopa Hwyr a chytunwyd i noddi'r "Ffenest Siop Orau" eleni eto. Cytunwyd i ofyn i Brif Swyddogion Ysgol y Berwyn feirniadu am hanner dydd ar 7/12/17 ac i sicrhau ffotograffydd wrth i'r Maer gyflwyno'r wobwr am 1.00pm
13. **Gohebiaeth:**
- i. **Gwynedd:** Cadarnhawyd manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Fyrddau Llywodraethol yr ysgolion cynradd.
 - ii. **Un Llais Cymru:** Dywedodd 5 Cynghorydd y byddant yn mynychu hyfforddiant ar 18/10/17.
 - iii. **Llywodraeth Cymru:** Cytunwyd i roi cwestiynau ymgynghoriad ar "Ganllaw Ymgynghoriad Cymuned" ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
 - iv. **Arall:**
 - a. Ystyriwyd llythyr am gyflwr y cae pob tywydd a deallwyd fod y broblem bellach wedi ei datrys.
 - b. Cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor y dymuniad am lwybr beicio o Frongoch i'r Bala.
 - c. Ymatebodd y Clerc i gais am wybodaeth am adeiladwaith Awel y Coleg.

- ch. Derbyniwyd gwahoddiad i ymweld â charchar Y Berwyn. Cytunwyd i ofyn am ddyddiadau mwy cyfleus.
- d. Derbyniwyd cais i gydnabod Betsi Cadwaladr yn gyhoeddus ar Y Stryd Fawr a ffurfiwyd isbwyllgor i ystyried y mater ymhellach (Rhys Evans, Eifion Roberts ac Alun Price)
- dd. Derbyniwyd gwybodaeth gan George Watson na fydd yn trefnu triathlon yn Y Bala yn y dyfodol.

14. Materion lleol y Cynghorwyr Tref : Cytunwyd i gefnogi Cymdeithas Chwaraeon Penllyn a'r Clwb Pêl Droed i osod arwyddion yn cyfeirio at Faes Tegid.

Lis Paw (Clerc)

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2/11/17